# Y PWYLLGOR MATERION EWROPEAIDD AC ALLANOL

| | |
|---|---|
| Dyddiad: | 9 Rhagfyr 2003 |
| Amser: | 09:00 |
| Lleoliad: | Ystafelloedd Pwyllgora 3 a 4, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol, Bae Caerdydd |
| Teitl: | Defnyddio’r ewro ar safleoedd CADW |

## Diben

1. Diben yr adroddiad yw rhoi gwybodaeth i’r aelodau am ganlyniad yr arbrawf i ddefnyddio papurau Ewro ym mhedwar safle Cadw.

# Argymhelliad

2. Cyflwynir yr adroddiad er gwybodaeth yn unig.

## Cefndir

3. Fis Mehefin 2003 cyhoeddodd Mr Alun Pugh, y Gweinidog dros Ddiwylliant, y byddai Cadw yn derbyn papurau Ewro ar y pedwar safle a reolir ganddynt fel atyniadau twristaidd, sef cestyll Caernarfon a Chonwy yng Ngogledd Cymru, a Chastell Caerffili ac Abaty Tyndyrn yn Ne Cymru. Mae nifer fawr yn ymweld â’r pedwar safle a ddewiswyd a dengys gwaith ymchwil blaenorol eu bod yn denu cyfran uchel o’u hymwelwyr o dramor. Yn ystod y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2003, cafodd y pedwar safle hwn 482,234 o ymwelwyr, sef 44 % o’r holl bobl a fu’n ymweld â safleoedd Cadw ar gyfer yr un flwyddyn.

## Canlyniad

4. Erbyn diwedd mis Medi 2003 derbyniwyd 5,950 Ewro (oddeutu £4,000.00), sy’n cynrychioli 0.4% o’r holl incwm o oddeutu £1.02 miliwn a wnaed yn y safleoedd hyn dros yr un cyfnod. Er mai dim ond cyfran fechan o’r incwm cyfan yw hyn, bu ymateb y cwsmeriaid yn gadarnhaol iawn a byddwn yn ehangu’r cyfleusterau i ddefnyddio’r Ewro i’r 26 safle arall a reolir gan Cadw o 1 Ebrill 2003 ymlaen.

## Cyswllt:

Andrew Hood - Cadw: est 6265